Cydweithio i gael y gorau o’r ystad gyhoeddus
Working together to make the best use of the public estate






## Rhifyn 5

# Croeso i Rifyn cyntaf Cylchlythyr Ystadau Cymru yn 2022

Mae hi wedi bod yn gyfnod cyffrous, gyda’r Rhaglen Lywodraethu yn datblygu, penodi Cadeirydd newydd, Beverly Owen, i YC a mwy o’r rhanbarthau ennill Gwobrau YC.

## --- Newsflash YC ---




### Mae Gwobr Arloesi a Phrif Wobr Ystadau Cymru 2021 yn mynd i...

### Cyngor Tre’r Drenewydd a Llanllwchaiarn

Enillwyr Gwobr Arloesi YC a phrif wobr 2021. Yn enghraifft o’r Economi Gylchol ar waith yn y Canolbarth. Darllenwch y brif erthygl yn y cylchlythyr hwn.

# Cynnwys

Y diweddaraf gan Beverly Owen 3

Cynhadledd YC 2021 4

Enillwyr Gwobrau Ystadau Cymru 2021 5

Prif Wobr Ystadau Cymru 2021 – Y Drenewydd a Llanllwchaiarn yn Arloesi Economi Ailddefnyddio a Thrwsio 6

Mwy yn cael ei wneud i ddatgarboneiddio’r Ystad Gyhoeddus 7

Tasglu i Chwalu’r Rhwystrau i Seilwaith Digidol – Gweithgor Asedau Cyhoeddus 7

Gwybodaeth Ddefnyddiol 8

# Y diweddaraf gan Beverly Owen



Mae'n bleser gen i gyflwyno cylchlythyr cyntaf Ystadau Cymru 2022 a'r cynta' ers i mi ddechrau yn fy swydd fel Cadeirydd. Mae hi wedi bod yn amser diddorol iawn ac rwy'n disgwyl ymlaen at fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu i gyd yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Gyda chefnogaeth ddi-dor ein Gweinidog Noddi – Rebecca Evans, AS, bydd ein cyllideb yn ein rhoi ar sylfeini cadarn i fwrw ymlaen â'n gwaith.

**Ein blaenoriaethau i ddechrau yn 2022 fydd:**

- Penderfynu sut olwg fydd ar ein hystâd gyhoeddus yn 2025.
- Rhoi'r dinesydd yn gyntaf wrth ddarparu'n gwasanaethau.
- Annog cydweithio â'n partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a lle bo'n briodol, y sector preifat.
- Dysgu am y newidiadau yn sgil y pandemig i fywyd gwaith.
- Defnyddio tir ac adeiladau'r sector cyhoeddus ar gyfer tai a chynlluniau datgarboneiddio.

Bydd llawer o'r uchod yn golygu penderfyniadau anodd. Mae angen i ni ddysgu oddi wrth yr arferion gorau a bod yn ddigon dewr i fod yn fentrus wrth gydweithio.

Bydd hi'n anodd cyflawni gyda chyllideb fach, yn enwedig o safbwynt argyfwng yr hinsawdd a'n hamcan uchelgeisiol i fod yn wlad sero net erbyn 2030. Mae'r newidiadau sydd eu hangen yn rhai mawr:

- adfywio canol ein trefi a'n dinasoedd
- cwrdd â'n targedau ar gyfer tai cymdeithasol carbon isel a di-garbon
- ailadeiladu ein seilwaith ffisegol i'n helpu i wireddu'n hamcanion ar gyfer byw a gweithio'n ddigidol mewn ffordd ynni effeithiol
- ailgoedwigo Cymru a symud at economi gylchol.

## Bydd 2022 yn flwyddyn anodd ond yn un gyffrous!

Rhaid i ni chwilio am gyfleoedd i gydweithio mewn ffyrdd newydd, i leihau ein hôl troed carbon ac i gefnogi'r newidiadau polisi niferus.

Rwy'n hyderus y cawn help y Bwrdd a'r Grwpiau Rhanbarthol i wynebu'r heriau rydym wedi'u gosod i ni'n hunain.

# Cynhadledd YC 2021

## Adeiladu Economi Gryfach a Gwyrddach

Roedden ni wrth ein bodd bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, wedi gallu ymuno â ni yn y prynhawn ar gyfer y seremoni wobrwyo. Gwnaeth y Gweinidog ein hannerch a siarad am agenda uchelgeisiol y Llywodraeth. Byrdwn ei neges oedd yr angen i hyrwyddo cydweithio, meithrin cysylltiadau a rhannu amcanion er mwyn adeiladu economi gryfach a gwyrddach yng Nghymru. Diolchodd Rebecca bawb am helpu YC â'i waith gwerthfawr – mae'r seremoni wobrwyo'n ddathliad o'r llwyddiant hwnnw.

Cynhaliwyd cynhadledd eleni ar-lein ar 2 Rhagfyr 2021. Dyma oedd rhai o uchafbwyntiau'r dydd:

## Argyfwng Hinsawdd: Yr Ystad Gyhoeddus

Gwnaeth Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd siarad gan esbonio'r hyn y mae'n ddisgwyl gan yr ystâd gyhoeddus fel adnodd pwysig i daclo'r newid yn yr hinsawdd. Mae MapDataCymru'n cynhyrchu mapiau sy'n nodi safleoedd lle gellid plannu coed. **Hafan | MapDataCymru (llyw.cymru)**

## Y Goedwig Genedlaethol a Lleoedd ar gyfer Natur

Cawsom glywed hefyd gan arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru am y Goedwig Genedlaethol a Lleoedd ar gyfer Natur a'r arian sydd ar gael ar gyfer y gwaith pwysig hwn: **Partneriaethau Natur Lleol Cymru – Amdanon ni Coetiroedd Cymunedol – Cymru | Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (heritagefund.org.uk) Coedwig Genedlaethol i Gymru | LLYW.CYMRU**




## Belfast One Million Trees

Daeth y sesiwn i ben gyda **One Million Trees (belfastcity.gov.uk)** yn rhannu'u profiadau ac yn disgrifio sut aethon nhw ati i drechu rhai o'r problemau oedd yn eu hwynebu.

## Datgarboneiddio Ystad y GIG

Gwnaeth Des Keighan, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cynorthwyol Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe y GIG, ddisgrifio sut y cafodd Fferm Ynni Haul Brynwhilach ei chreu gydag arian Re:Fit. Mae'r datblygiad £5.9 miliwn wedi'i gysylltu ag ysbyty Treforys gan sicrhau'r manteision canlynol:

- Bod yn hunangynhaliol o ran trydan ar adegau o'r dydd.
- Gwerthu trydan dros ben i'r grid.
- Y fferm i fodloni 26% o alw'r ysbyty am drydan mewn blwyddyn.

**Ysbyty Treforys fydd y cyntaf yng Nghymru i ddatblygu ei fferm solar ei hun – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gig.cymru)**

# Enillwyr Gwobrau
## Ystadau Cymru 2021

*and the winners are...*



### Cyngor Rhondda Cynon Taf

**Creu Twf Economaidd – Llys Cadwyn**

Llys Cadwyn yw prosiect mawr Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer adfywio canol Pont-y-pridd. Cafodd yr enw ei ddewis gan ei fod yn adlewyrchu hanes diwydiannol hir a balch y dref a'r ffatri gadwyni fydenwog Brown Lenox ym Mhont-y-pridd.

### Cyngor Bro Morgannwg

**Arddangos Cynaliadwyedd Amgylcheddol – Datgarboneiddio Ysgolion**

Lansiodd tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif brosiect i ystyried sut y gallai dulliau adeiladu gael eu newid i helpu i ddatgarboneiddio'r ystâd addysg fel rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

### Grŵp Cyfeillio Tyddewi a Chyngor Sir Penfro

**Rhoi Gwerth Cymdeithasol**

Daeth grŵp o wirfoddolwyr ynghyd gyda'r awdurdod lleol i ddefnyddio cegin ysgol i gynhyrchu bwyd mewn amgylchedd diogel. Mae prydau bwyd yn cael eu cynhyrchu yng ngheginau'r ysgol, yng nghalon y gymuned, a'u dosbarthu unwaith yr wythnos i bobl fregus gan wirfoddolwyr.



### Y Drenewydd yn Arloesi Economi Ailddefnyddio a Thrwsio

**Arloesi**

Dyma'ch cyflwyno i Gyngor y Drenewydd a Llanllwchaiarn sydd hefyd wedi ennill Prif Wobr Ystadau Cymru ac yn destun erthygl ein prif stori. Maen nhw wedi arloesi gan arwain y gymuned i wneud 'pethau'n wahanol. Gweler isod i gael y stori gyfan.

# Prif Wobr Ystadau Cymru 2021 …

## Y Drenewydd a Llanllwchaiarn yn Arloesi Economi Ailddefnyddio a Thrwsio




**Aeth Cyngor Tre'r Drenewydd a Llanllwchaiarn (y Cyngor), ar y cyd â'r fenter gymdeithasol, Circular Economy Mid Wales (CEMW) Ltd, ati i ddefnyddio hanes diwydiannol arloesol y Drenewydd a'i thraddodiad o ailddefnyddio a thrwsio i greu dyfodol newydd i'r dref a mudiad dros newid i gymdeithas ddiwastraff ac economi gylchol.**

Gan weithredu fel galluogwr cymunedol, deliodd y Cyngor yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru gan sicrhau, neilltuo, monitro a goruchwylio gwerth £675,550 o nawdd ar gyfer partner yn y trydydd sector. Rôl CEMW oedd:

- Sefydlu Emporiwm Ailddefnyddio a Thrwsio yng nghanol y dref – prynu safle uchel ei broffil yng nghanol y dref a'i adfer ar gyfer ei ddefnyddio at bwrpas newydd.
- Ailwampio'r Gofod i Grefftwyr ger y coleg – ychwanegu dau gontainer llongau newydd a'u hadfer a'u haddasu'n gyfleuster uwchgylchu a thrwsio.
- Gwella Salvage Shed y dref yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref – gosod to i ddiogelu'r swm sylweddol o stoc.
- Prynu Fan Drydan.
- Ffurfio brand 'Ailddefnyddio a Thrwsio' i'w ddefnyddio ym mhob lleoliad ac ar bob cerbyd – i wneud y syniad o ailddefnyddio a thrwsio yn rhan annatod o fywyd y dref.

Yn y tymor hir, nod y prosiect yw meithrin diwylliant o ailddefnyddio yn hytrach na defnydd untro, o drwsio yn hytrach na phrynu o'r newydd. Mae gofalu am ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy fel hyn yn allweddol ar gyfer dyfodol sy'n ecolegol gynaliadwy.

**Double Win at Prestigious National Awards – 09/12/2021: Newtown**

# Mwy yn cael ei wneud i ddatgarboneiddio'r Ystad Gyhoeddus

Mae Ystadau Cymru yn rhwydwaith strategol sy'n rhoi arweiniad ac yn annog rhagoriaeth ac arferion da yn Ystad y Sector Cyhoeddus trwy:

- Gydweithio â Sector Cyhoeddus Cymru.
- Nodi'r portffolio eiddo, nawr ac ar gyfer y dyfodol, a'i siapio.
- Rhoi arweiniad a chyngor ar reoli eiddo.
- Rhannu gwybodaeth am ddatgarboneiddio.
- Datblygu fframwaith sgiliau a hyfforddi ar gyfer rheolwyr ystadau ar ddatgarboneiddio.
- Casglu cronfa o astudiaethau achos am ddatgarboneiddio ystadau.
- Cynnal a chyfrannu at weithgorau mewn meysydd â blaenoriaeth.

# Tasglu i Chwalu'r Rhwystrau i Seilwaith Digidol

## Gweithgor Asedau Cyhoeddus

All neb wadu mwyach mor bwysig yw band eang yn ein cartrefi a busnesau a ffonau symudol i'n bywydau. Daeth hynny'n amlwg iawn dros y pandemig. Ond, mae'r cysylltedd digidol hwn yn dibynnu ar seilwaith, fel mastiau ffonau symudol a cheblau ffibr optig. Mae rhoi'r seilwaith digidol hwn ar waith yn fater cymhleth, gyda chyfyngiadau technegol a ffactorau eraill yn effeithio ar gyflymder a chost.

Trwy gydweithio, gall y sector cyhoeddus a phreifat ddod â manteision i'n dinasoedd, ein trefi a'n cymunedau a chreu cysylltedd o ansawdd uchel fydd yn hwb i'r economi. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru wrthi'n edrych ar y rhwystrau i'w defnyddio **Seilwaith cyfathrebu digidol yng Nghymru: adroddiad | LLYW.CYMRU**

Rydym wedi rhannu rhai enghreifftiau o arferion da, gan gynnwys: **Digital Infrastructure – Scottish Futures Trust**.

SCOTTISH FUTURES TRUST

**Os oes unrhyw un yn gwybod am arferion da yng Nghymru – anfonwch y manylion at** YstadauCymru@gov.wales

# Gwybodaeth Ddefnyddiol:

**Forest Research (FR):** Asiantaeth ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth yw FR, y prif sefydliad ymchwil ym Mhrydain Fawr i goedwigoedd a choed. Isod mae dolen i'w system gymorth ar y we i helpu rheolwyr a chynllunwyr coedwigoedd i ddewis y coed sy'n addas yn ecolegol i safleoedd penodol, fel y'u diffinnir yn Nosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol Prydain Fawr: **Ecological Site Classification (ESC) – Forest Research**

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):** os ydych chi'n Gorff Cyhoeddus neu'n Ymgymerydd Statudol ac yn gwneud gwaith allai effeithio ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), mae gennych gyfrifoldebau arbennig. Cliciwch ar y ddolen i weld gwybodaeth CNC: **Cyfoeth Naturiol Cymru / Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig: cyfrifoldebau cyrff cyhoeddus ac ymgymerwyr statudol (naturalresourceswales.gov.uk)**

## Dolenni cyflym i Strategaethau Llywodraeth Cymru:

**Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol Llywodraeth Cymru 2021 – 2024**
**Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol (llyw.cymru)**

---

**Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol Llywodraeth Cymru 2021 – 2026**
**Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol (llyw.cymru)**

---

**Dogfen Llywodraeth Cymru – Statws Carbon Sero Net erbyn 2030 –**
Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru.
**Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru (llyw.cymru)**

**Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Llywodraeth Cymru**
**Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru: cynllun gweithredu (llyw.cymru)**

---

**Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru: Cynllun Gweithredu**
**Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru: cynllun gweithredu [HTML] | LLYW. CYMRU**

---

**CLAW**
**Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru Wales**

**Route Map to net zero carbon buildings in Wales**
**https://www.claw.wales/assets/images/uploads/documents/RoutemaptonetzerocarbonbuildingsWales.pdf**

## Cyrsiau a Digwyddiadau allai fod o ddiddordeb:

**Modiwl E-Ddysgu Hanfodion Cynaliadwyedd UKGBC (UK Green Building Council)**
Sesiwn awr i ddeall effaith adeiladau a seilwaith ar bobl a'r amgylchedd. Dyma'r ddolen:
**UKGBC Sustainability Essentials E-Learning Module**

---

**Cynhadledd Eiddo'r Llywodraeth ar 24 Mawrth 2022**
Dod â phobl broffesiynol ym maes eiddo ynghyd o bob rhan o Lywodraeth y DU a'r sector cyhoeddus. I'w chynnal ddydd Iau, 24 Mawrth 2022. Am ddim i gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus. Cliciwch i weld rhagor o wybodaeth:
**http://governmentproperty.co.uk/**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44418 ISBN digidol 978-1-80391-686-6